

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Y Bont-faen

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae staff yn Ysgol Gynradd Y Bont-faen yn creu cymuned groesawgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn awchus i ddysgu. At ei gilydd, mae'r ysgol yn cyflawni ei nodau yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu creadigrwydd, annibyniaeth ac uchelgais yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn barchus, yn frwdfrydig ac yn hapus. Maent yn elwa'n fawr ar ymagwedd effeithiol yr ysgol at ddatblygu medrau meddwl, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau, trefnu eu dysgu a chyfrannu'n effeithiol at y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn ffurfio partneriaethau cryf â rhieni a'r gymuned leol ehangach. Mae rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u hysbysu, ac yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt. Mae elusennau a busnesau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â'r ysgol i ddarparu profiadau sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn cefnogi lles. Mae disgyblion yn datblygu ymdeimlad o'u hunaniaeth eu hunain a dealltwriaeth o'u bro, ac yn dechrau deall sut mae eu bywydau'n cymharu â bywydau pobl eraill ledled y byd.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y rhan fwyaf o'u meysydd dysgu. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o beth, sut a pham maent yn dysgu, ac yn cysylltu'r medrau a'r wybodaeth y maent yn eu hennill â'u dyheadau. O oedran cynnar, mae disgyblion yn dechrau myfyrio ar eu dysgu, gan awgrymu ffyrdd y gallen nhw a disgyblion eraill wella'u gwaith. Yn aml, mae disgyblion hŷn yn datblygu dealltwriaeth soffistigedig o'u camau nesaf mewn dysgu, gan ddefnyddio holi ac ymateb i adborth athrawon i wneud gwelliannau.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn ystyried anghenion unigol disgyblion yn ofalus ac yn darparu cymorth effeithiol. Mae staff yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chefnogol â disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymateb yn dda i her ac yn datblygu gwydnwch. Maent yn teimlo'n ddiogel a bod pobl yn gwrando arnynt, ac yn gwybod sut i ofyn am gyngor pan fydd angen. Mae gwaith yr ysgol ar greadigrwydd a meddwl yn rhoi cyfleoedd helaeth i ddisgyblion fod yn arloesol, dod o hyd i atebion a defnyddio'u dychymyg. Mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o'r amgylchedd yn dda. Maent yn mwynhau eu gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored a'u gweithgareddau corfforol. Er eu bod yn deall effaith diet ar eu cyrff, nid ydynt bob amser yn gwneud dewisiadau priodol o ran byrbryd.

Mae uwch arweinwyr yn annog bron pob un o'r staff i arwain ar agweddau ar wella'r ysgol. Mae staff yn cydweithio i ysgogi newid mewn meysydd pwysig o waith yr ysgol, gan sicrhau cysondeb mewn addysgu ac mewn cymorth ar gyfer disgyblion.

# Argymhellion

A1 Gwella trefniadau i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â datblygu creadigrwydd trwy ei chwricwlwm, i'w lledaenu ar wefan Estyn.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Y Bont-faen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 271 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 188 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 53 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 1.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 6.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 12/06/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/08/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.